

## Sicrwydd bendigedig

*“Ond pan ddaeth cyflawniad yr amser, anfonodd Duw ei Fab...i brynu rhyddid i'r rhai oedd dan y Gyfraith, er mwyn i ni gael braint mabwysiad.” (adn. 4–5)*

### Beth am ddarllen Galatiaid 4:1–7 ac yna myfyrio

Heddiw, yr ydym am barhau i edrych ar wirionedd bendigedig cyfiawnhad trwy ffydd – y gwirionedd sydd, er y Diwygiad Protestannaidd, yn cael ei esgeuluso neu yn cael ei guddio mewn rhai rhannau o'r Eglwys. Gwrandewch ar eiriau John Stott wrth iddo ddisgrifio cyfiawnhad trwy ffydd: “Yr unig ffordd i gael ein cyfiawnhau o'n pechod yw trwy fod cyflog pechod yn cael ei dalu, naill ai gan y pechadur neu gan yr un mae Duw wedi ei ddewis yn ei le. Sut all dyn fod yn gyfiawn os yw wedi ei ddyfarnu'n euog o drosedd ac wedi ei ddedfrydu i gyfnod o garchar am ei drosedd? Unwaith y mae wedi cyflawni'r tymor, gall adael y carchar yn gyfiawn. Nid oes raid iddo mwyach ofni rhag yr heddlu na'r ynadon, oherwydd y mae gofynion y gyfraith wedi eu cyflawni. Mae wedi ei gyfiawnhau oddi wrth ei bechod.”

Y peth bendigedig am gyfiawnhad trwy ffydd yw nad oes raid i ni dreulio unrhyw fath o amser yn dioddef cosb mewn carchar dwyfol, oherwydd y mae Iesu Grist wedi dioddef ein cosb yn ei gorff ar y groes, a'r foment yr ydym yn dewis derbyn Iesu i mewn i'n bywydau, gan ofyn iddo am faddeuant, fe'n cyhoeddir yn gyfiawn. A oes unrhyw beth ar y ddaear neu yn y nefoedd yn fwy bendigedig na hyn? Os oes, mi fuaswn i wrth fy modd yn clywed beth yw'r gwirionedd. Nid honiad nac arwydd o falchder ysbrydol yw hawlio sicrwydd. Yn ôl ein testun heddiw, wrth i ni dderbyn Iesu Grist yn Arglwydd ac yn Waredwr, mae gennym yr hawl i'n disgrifio ein hunain fel ei blant ef a'i etifeddion.

Roedd ffrind i mi, sydd bellach wedi mynd i gwmni ei Arglwydd, yn arfer rhoi'r llythrennau M.A. ar ôl ei enw. Nid oedd ganddo radd estynedig ac nid ei fwriad ychwaith oedd camarwain pobl. Ond, yn hytrach, fe fyddai'n rhoi mewn cromfachau: *“Mightily Assured”*. Roedd ganddo sicrwydd cryf a rhyfeddol. Fe fedra innau dystio i'r un sicrwydd â hyder llawn. Fedrwch chi?

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Heb. 10:11–23; 1 Ioan 5:11–13

### Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam y gallwn feddu'r fath sicrwydd?
2. Pam nad oes yna unrhyw gosb am bechod mwyach?

### Gweddi

O Dad, does dim digon o eiriau ar gael i fynegi diolchgarwch fy nghalon, y diolchgarwch dy fod ti trwy dy Ysbryd yn byw yn fy nghalon, a thrwy hynny yn rhoi sicrwydd cryf i'm henaid. Amen.